CYNGOR TREF DINBYCH
Neuadd y Dref
Lôn Crown
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3TB

Tel: 01745 815984

DENBIGH TOWN COUNCIL
Town Hall
Crown Lane
DENBIGH
Denbighshire
LL16 3TB

Tel: 01745 815984

Clerc y Dref Jenny Barlow *Town Clerk*

e-bost: townclerk@denbightowncouncil.gov.uk. e-mail

12fed o Chwefror 2019

At y Cynghorwyr:

Alyn Ashworth
Dyfrig Berry
Rob Parkes
Lara Pritchard
Philip Stevens
Gaynor Morgan Rees
Irene Williams

Annwyl Gynghorydd,

Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio

A fyddwch mor garedig â nodi y cynhelir cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Nos Fawrth 19eg o Chwefror 2019 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych. Rydych wedi eich galw i fynychu'r cyfarfod ac rwy'n fawr obeithio y byddwch yn gallu bod yn bresennol.

Yn gywir,

Jenny Barlow
Clerc y Dref.

AGENDA

1. **Ymddiheuriadau.**

2. **Datganiad Diddordeb Personol -** Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu rhai sy'n niweidiol i unrhyw fusnes a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod yma.

3. **Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd dydd Mawrth, Rhagfyr 11eg 2018.**

4. **Materion yn codi** - Nodi ymateb a wnaed yn dilyn cyfarfod Cynllunio Ionawr (22.01.19 wedi'i ganslo) ar y ceisiadau canlynol drwy e-bost ar y ffôn:

(1) 01/2018/0992
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych
Newid defnydd tir i ardal hyfforddi adeiladu safle, codi adeilad i'w ddefnyddio fel gweithdy, atgyweirio a storio peiriannau; newidiadau i'r fynedfa bresennol a'r gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiad.

Hoffai cynghorwyr y dref nodi ei fod yn rhannu pryderon trigolion lleol ynghylch addasrwydd y ffordd ar gyfer traffig trwm. Mae llawer o drigolion Dinbych yn defnyddio'r ffordd hon i gerdded, rhedeg, ac ati. Angen cymryd ystyriaeth ddigonol i fynedfeydd posibl eraill yn nes at y dref? Hefyd pam na fydd y tryciau yn defnyddio Stryd y Dyffryn ar gais y Brodyr Jones, Ysbyty Gogledd Cymru? Bydd y ffordd a ddyfynnir yn achosi tagfeydd ac oedi ychwanegol ar Lôn Barkers Well ac yn barhaus o amgylch cylchfan Pwll y Grawys.

(2) 01/2018/1152
Heulwen, Hen Ffordd Rhuthun, Dinbych
Manylion diwygiedig am addasiadau ac estyniadau i'r annedd presennol, a gymeradwywyd yn flaenorol o dan gais 01/2014/0319.

Dim gwrthwynebiad.

(3) 01/2018/1113
Tir ar Dŷ Dewi Sant, Lôn Dewi Sant, Dinbych.
Amrywio amod rhif 1 o rif cod caniatâd cynllunio. 01/2015/0858 i ganiatáu math o dai diwygiedig a garej ychwanegol (plot 2).

Dim gwrthwynebiad.

Cais 01/2019/0003
Safle Cyn Canolfan Addysg Dechnoleg a Galwedigaethol Dinbych, Lon Ganol, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3UW
Amrywio amod rhif 2 o rif cod caniatâd cynllunio. 01/2016/1241 i ganiatáu gohirio manylion mân diwygiedig i'r cynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol tan gyfarfod cynllunio mis Chwefror, gweler isod.

Derbyniwyd y cais diwygiedig canlynol - ni ellid diwygio dyddiad ateb y cais.

01/2018/1026
Bach, Ffordd Bodeiliog, Dinbych
Codi estyniad i'r annedd.

Dosbarthwyd hwn i aelodau'r pwyllgor a thrafodwyd trwy e-bost a ffōn 31.01.19 - ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau.

5. **I ystyried y ceisiadau canlynol a dderbyniwyd am ganiatâd cynllunio:**

Sicrhewch eich bod wedi gweld y ceisiadau isod, ar-lein neu yn y swyddfa clerc y dref, cyn mynychu'r cyfarfod.

http://planning.denbighshire.gov.uk/Planning/lg/GFPlanningSearch.page

(1) 01/2019/0003
Safle Cyn Canolfan Addysg Dechnoleg a Galwedigaethol Dinbych, Lon Ganol, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3UW
Amrywio amod rhif 2 o rif cod caniatâd cynllunio. 01/2016/1241 i ganiatáu gohirio manylion mân diwygiedig i'r cynlluniau a gymeradwywyd.

(2) 01/2019/0016
19A Ffordd y Parc, Dinbych
Codi estyniad i'r annedd a chodi garej ar wahân.

(3) 01/2019/0038
Tŷ Bragu, Ffordd Brwcws, Dinbych
Addasiadau a chodi estyniad a balconi i'r gofod byw presennol.

(4) 01/2019/0071
The Old Vaults, Dinbych
Newid defnydd ac addasiadau rhan o'r llawr cyntaf i ffurfio fflat hunangynhwysol (cais adeilad rhestredig - ailgyflwyno).

6. Safonau Statudol ar gyfer SDCau.
<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=cy>
<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=en>

Copïau i holl Gynghorwyr Tref Dinbych er gwybodaeth.